Syniadau Codi Arian!

Diwrnod Gwyrdd – gwisgwch rhywbeth gwyrdd a chyfrannu £1 i helpu i ddiogelu'r coedwigoedd glaw

Bore Coffi – cynhaliwch wasanaeth i godi ymwybyddiaeth am y coedwigoedd glaw, i'w ddilyn gan fore coffi, a gwahoddwch y rhieni i'r digwyddiad.

Casglu nawdd – gofynnwch i bobl eich noddi i wneud un o'r pethau canlynol: taith gerdded, bod yn dawel, nofio, beicio, ras hwyl, canu, dawnsio, sgipio.

Raffl – fe allech ofyn i fusnesau lleol a/neu rieni ddarparu gwobrau, ac yna gwerthu tocynnau

Cwis – cynnal cwis ar thema'r coedwigoedd glaw. Mae'r rhain yn gweithio'n dda naill ai wedi'u rhedeg gan athrawon ar gyfer y disgyblion, gan ddisgyblion hŷn ar gyfer dosbarthiadau iau, neu gall disgyblion hyd yn oed osod cwisiau ar gyfer y rhieni ar ôl ysgol.

Sêl moes a phryn / Ffair sborion – cyfrannwch unrhyw deganau/llyfrau/gemau/ iwnifform ac yn y blaen, at yr achos.

Cynnal Dawns – beth am addurno neuadd eich ysgol ar gyfer disgo ar thema'r coedwigoedd glaw?

Arwerthiant – fe allech gynnal arwerthiant o eitemau neu wasanaethau a gyfrannwyd at yr achos. Gofynnwch i fusnesau lleol ddarparu gwobrau, neu gofynnwch am roddion/gwasanaethau drwy gylchlythyr eich ysgol.

Coginio – cynhaliwch frecwast crempogau yn eich ysgol. Gwahoddwch ffrindiau, rhieni ac athrawon i'r digwyddiad.

Cynhaliwch gystadleuaeth pobi ar gyfer y coedwigoedd glaw – pobwch eitemau i'w gwerthu i ddisgyblion ac athrawon yn ystod yr egwyl.

Digwyddiad golchi ceir – cyfle i gynnwys y gymdogaeth wrth i chi dorchi'ch llewys dros achos da

Llwybr Ceiniogau – gofynnwch i bob disgybl ddod â newid mân i'r ysgol. Gosodwch y ceiniogau i gyd ar y llawr i lunio llwybr, ac edrychwch i weld pa mor bell o amgylch yr ysgol fedrwch chi fynd.

Taflu sbyngau – Gofynnwch i'r disgyblion am gyfraniad am gyfle i daflu sbyngau sebonllyd at yr athrawon!

Helfa Drysor – Lluniwch helfa drysor, rhannwch y disgyblion yn barau neu dimau, a gadewch i'r gwaith ditectif ddechrau! Gofynnwch i fusnes lleol ddarparu gwobr ar gyfer y pâr/tîm buddugol, a phenderfynwch ar swm i'w awgrymu fel cyfraniad i gymryd rhan